RWE

# Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr

## Datganiad o Ymgynghori Cymunedol

**Awst 2021**

Cyhoeddwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

**Atebolrwydd**

Wrth baratoi'r ddogfen hon, mae RWE Renewables UK a'u his-gontractwyr wedi gwneud ymdrechion rhesymol i sicrhau bod y cynnwys yn gywir, yn gyfredol ac yn gyflawn at y diben y cafodd ei pharatoi. Nid yw RWE na'u his-gontractwyr yn gwneud unrhyw warant ynghylch cywirdeb na chyflawnder y deunydd a gyflenwir.

Ac eithrio unrhyw atebolrwydd ar RWE neu ei is-gontractwyr y manylir arnynt yn y contractau rhwng y partïon ar gyfer y gwaith hwn, ni fydd gan RWE na'i is-gontractwyr unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled, difrod, anaf, hawliad, traul, cost na chanlyniad arall sy'n codi o ganlyniad i ddefnydd neu ddibyniaeth ar unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon neu sydd wedi'i hepgor ohoni.

Dylai unrhyw un sy'n bwriadu defnyddio'r ddogfen hon fodloni eu hunain ynghylch ei pherthnasedd i'w diben bwriedig.

Lle bo'n briodol, mae gan y sawl sy'n defnyddio'r ddogfen hon ddyletswydd i ddefnyddio arferion gweithio diogel ar gyfer unrhyw weithgareddau y cyfeirir atynt ac i fabwysiadu arferion penodol sy'n briodol i amodau lleol.

# Cynnwys

1. Pwrpas y ddogfen hon: y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (SoCC)
2. Amdanom ni: yr ymgeisydd (Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr Cyfyngedig)
3. Gwybodaeth am y Prosiect: Awel y Môr (AyM)
4. Prosesau cydsynio ac ymgynghori (Gorchmynion Cydsyniad Datblygu (DCOs), Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs) a Thrwyddedau Morol (MLs))
5. Pwy fyddwn ni'n ymgynghori â nhw?
6. Am ba hyd fyddwn ni'n ymgynghori?
7. Beth fyddwn ni'n ymgynghori yn ei gylch?
8. Sut byddwn ni'n ymgynghori?
9. Sut galla i gael gafael ar y SoCC hwn a deunyddiau ymgynghori eraill?
10. Pryd alla i gymryd rhan?
11. Sut galla i roi adborth?
12. Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'ch adborth?
13. Cyfle arall i roi adborth
14. Yr iaith Gymraeg
15. Addasu i bandemig COVID-19
16. Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth

# Ffigurau

**Heb ganfod cofnodion tablau ffigurau.**Geirfa

| TERM | DIFFINIAD |
|---|---|
| AyM | Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr |
| DCO | Gorchymyn Cydsyniad Datblygu |
| LPA | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| ML | Trwydded Forol |
| NRW | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| NSIP | Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| PEIR | Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol |
| PINS | Yr Arolygiaeth Gynllunio |

## 1. Pwrpas y ddogfen hon: y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (SoCC)

Mae Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr Cyf yn cyhoeddi'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol hwn (SoCC) ynghylch datblygiad arfaethedig Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr ('AyM' neu 'y Prosiect'). Pwrpas y ddogfen hon yw nodi sut byddwn yn ymgynghori â'r gymuned leol ynghylch ein cynnig, fel sy'n ofynnol o dan adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008 ('y Ddeddf').

**Mae'r SoCC hwn yn nodi:**

- **gwybodaeth am gefndir y Prosiect**
- **sut bydd y cais am gydsyniad datblygu yn mynd rhagddo**
- **sut rydyn ni wedi nodi pwy i ymgynghori â nhw**
- **dulliau a deunyddiau ymgynghori arfaethedig**
- **sut gall aelodau o'r gymuned barhau i roi eu hadborth er mwyn helpu i lywio'r Prosiect wrth iddo ddatblygu**

Mae'r SoCC wedi cael ei ysgrifennu mewn ymgynghoriad â Chyngor Sir Ddinbych fel yr awdurdod lleol sy'n cynnal y prosiect, o ystyried bod y seilwaith arfaethedig ar y tir a'r llwybr ceblau o fewn ei ffiniau yn unig. Ymgynghorwyd hefyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol (LPAs) eraill fel y nodir yn Adran 5 isod.

## 2. Amdanom ni: yr ymgeisydd (Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr Cyfyngedig)


Mae'r Prosiect yn cael ei ddatblygu gan RWE Renewables (RWE), ar ran yr ymgeisydd, Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr Cyfyngedig. Mae RWE yn cynhyrchu trydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy, ac mae'n un o'r cynhyrchwyr ynni gwynt ar y môr mwyaf yn y byd.

Mae RWE yn fuddsoddwr mawr mewn ynni yng Nghymru, ac mae'n cynhyrchu traean o drydan adnewyddadwy Cymru, gan gynnwys gan Gwynt y Môr (chwaer brosiect AyM). Mae RWE yn arwain y gwaith o ddatblygu Fferm Wynt ar y môr Awel y Môr, ac mae gan y tîm brofiad helaeth o ddatblygu, adeiladu a gweithredu prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae'r prosiectau hyn yn cyfrannu at dargedau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio.

## 3. Gwybodaeth am y Prosiect: Awel y Môr (AyM)

Mae'r Prosiect yn union i'r gorllewin o Fferm Wynt ar y Môr bresennol Gwynt y Môr. Mae tua 10.5km oddi ar arfordir Cymru ym Môr Iwerddon, gyda chyfanswm

arwynebedd o 88km$^2$ (fel y dangosir isod yn Ffigur 1).





*Ffigur 1: Cynllun y Prosiect*

Byddai AyM yn gwneud cyfraniad sylweddol pellach at dargedau ynni Llywodraeth Cymru o 70% o drydan i'w gynhyrchu o ynni adnewyddadwy erbyn 2030.

Y prif ffactorau sy'n sbarduno ynni adnewyddadwy yn y DU, ac ar gyfer AyM, yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, rhoi mwy o ddiogelwch ynni, a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd ar gyfer y DU ac economïau lleol. Mae datblygu seilwaith gwyrdd hefyd wedi cael ei nodi fel un o strategaethau adferiad economaidd a strategaethau ar ôl Brexit Llywodraeth y DU ar gyfer pandemig COVID-19.


Dangosir cydrannau nodweddiadol fferm wynt ar y môr yn Ffigur 2, yn uniongyrchol isod.




*Ffigur 2: Cydrannau fferm wynt arferol ar y môr*

Ystyrir bod prosiectau fel AyM yn gyfle sylweddol i leihau costau gwynt ar y môr, o ystyried arbenigedd a phrofiad technegol ar y safle, yn ogystal â setiau data ac astudiaethau amgylcheddol presennol. Mae'r materion hyn yn dod yn fwyfwy pwysig ym marchnad drydan hynod gystadleuol y DU, sy'n ceisio sicrhau'r gwerth gorau posibl i'r defnyddiwr.

Mae union faint a chapasiti'r Prosiect yn cael ei bennu drwy weithgareddau arolygu ac ymchwiliadau amgylcheddol, ac mae'r ymgynghoriad cyn ymgeisio yn rhan allweddol o hynny. Dechreuodd y broses gydsynio yn 2018 [check with PC] a disgwylir y bydd wedi'i chwblhau erbyn 2023/24. Bydd y gwaith adeiladu yn dilyn hynny, a gallai'r fferm wynt ddod yn gwbl weithredol erbyn 2030 (edrychwch ar Ffigur 3 isod i weld amserlen prosiect lefel uchel).




*Ffigur 3: Amserlen y Prosiect*

## 4. Prosesau cydsynio ac ymgynghori (Gorchmynion Cydsyniad Datblygu (DCOs), Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs) a Thrwyddedau Morol (MLs))

Gan fod gan AyM gapasiti arfaethedig o dros 100MW ar y môr, o dan y Ddeddf mae'n cael ei ddosbarthu fel **Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP)** Oherwydd hynny, rhaid i ni gyflwyno ein cais am **Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO)** i adeiladu ac i weithredu'r Prosiect. Cafodd y broses DCO ei chreu i symleiddio'r broses o roi caniatâd ar gyfer prosiectau seilwaith mawr ac i sicrhau tryloywder a chyfranogiad y cyhoedd.

Bydd y broses ymgeisio'n cael ei rheoli gan yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS) ac yn cael ei harchwilio gan Awdurdod Archwilio annibynnol (ExA), a fydd yn gwneud argymhelliad ar gyfer rhoi caniatâd neu wrthod, cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wneud penderfyniad. Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn chwarae rôl ymgynghorol bwysig yn y broses, ond nid ef yw'r penderfynwr fel y byddai ar gyfer prosiectau llai y gwneir cais amdanynt dan y broses Cynllunio Gwlad a Thref. Os caiff y DCO ei roi, bydd yn caniatáu aráe y tyrbin ar y môr, y ceblau a'r seilwaith trydanol cysylltiedig yn ogystal â'r gwaith cysylltu â'r grid ar y tir (fel sy'n cael ei ddangos uchod yn Ffigur 2).

I gael rhagor o wybodaeth am y broses NSIP, ewch i:
https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/2013/04/Advice-note-8.0.pdf

Mae ymgynghori cyn ymgeisio yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyfer NSIPs, ac mae RWE yn credu mewn ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid ar ei holl brosiectau. Mae'r ddogfen hon yn dechrau cam statudol yr ymgynghoriad yn unol ag adran 47 o'r Ddeddf, sy'n nodi dyletswydd yr ymgeisydd i ymgynghori â'r gymuned leol ar NSIP.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn ein galluogi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y Prosiect a dangos i chi sut mae wedi cael ei addasu mewn ymateb i adborth a gasglwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus anstatudol a gynhaliwyd ddiwedd 2020. Byddwch hefyd yn gallu rhoi adborth ar ein cynigion, a chael cyfle i ddylanwadu ar y prosesau dylunio a datblygu cyn cyflwyno ceisiadau am y cydsyniadau datblygu angenrheidiol. Mae'r dull hwn yn caniatáu i ni ddatblygu ein cynigion ar y cyd ac yn gyfrifol, gan gefnogi buddiannau cymunedol lleol.

Rhaid i PINS bennu bod ein hymgynghoriad cyn ymgeisio yn ddigonol, sy'n golygu bod yn rhaid i ni allu dangos ein bod wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol, wedi cydymffurfio â'r SoCC hwn, ac wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais yn y ffordd sy'n ofynnol.

Gan fod AyM yn nyfroedd Cymru, mae angen **Trwydded Forol (ML)** arnom hefyd i adeiladu a gweithredu elfennau ar y môr y Prosiect, o dan Ddeddf y Môr a

Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae ceisiadau am ML yn cael eu rheoli a'u penderfynu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd AyM yn cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ar ei gais am ML yn unol ag arferion gorau a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar ôl cyflwyno'r cais am ML. I gael rhagor o wybodaeth am y broses ML, ewch i:
https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/marine-licensing/?lang=cy

## 5. Pwy fyddwn ni'n ymgynghori â nhw?

Yn unol ag adran 47 o'r Ddeddf, byddwn yn ymgynghori â phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir ac y gallai'r Prosiect effeithio arnyn nhw. Er mwyn canfod y ffordd orau o wneud hynny, mae tîm y prosiect wedi datblygu'r SoCC hwn mewn trafodaeth gyda'r awdurdod lleol sy'n cynnal y prosiect, sef Cyngor Sir Ddinbych.

Er nad yw hyn yn ofyniad statudol, rydyn ni wedi ymestyn y trafodaethau hyn i gynnwys yr awdurdodau arfordirol (Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd), yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr awdurdod parc cenedlaethol mwyaf yng Nghymru sy'n agos at y Prosiect) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (gan gydnabod mai Wrecsam yw tref fwyaf Gogledd Cymru). Rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn sicrhau'r defnydd gorau o wybodaeth leol er mwyn cynnwys cymunedau yn yr ymgynghoriad.

Yn unol â'r SoCC hwn ac adrannau perthnasol y Ddeddf, byddwn yn ymgysylltu â'r canlynol:

- Awdurdodau Cynllunio Lleol, Aelodau'r Senedd, Aelodau Seneddol (ASau), a chynghorau sir, dinas, tref a chymuned, gan gynnwys llawer o aelodau a etholwyd yn lleol yn Sir Ddinbych ac awdurdodau cynllunio lleol eraill ledled Gogledd Cymru
- Perchnogion, tenantiaid a meddianwyr tir y mae'r cais am DCO yn effeithio arno
- Rhanddeiliaid masnachol, gan gynnwys perchnogion asedau (fel perchnogion ceblau a phiblinellau) a'r diwydiant pysgodfeydd
- Mudiadau preswyl, cymunedol, twristiaeth a busnes
- Unigolion/aelodau o'r cyhoedd
- Cyrff amgylcheddol

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol ar sut i ymgysylltu ag unigolion neu grwpiau a allai gael eu hystyried yn 'anodd eu cyrraedd' neu 'ddim yn cael eu clywed yn aml', ac rydyn ni'n croesawu rhagor o wybodaeth am eraill. Hefyd, mae croeso i unrhyw un arall a allai fod â diddordeb, neu sy'n teimlo bod ein cynigion yn effeithio arnynt, gymryd rhan.

## 6. Am ba hyd fyddwn ni'n ymgynghori?

Fel ymgeisydd, rhaid i ni sicrhau bod y gymuned leol yn deall y Prosiect a'i bod yn cael cyfle i wneud sylwadau ar ein cynigion a'u llywio drwy ymgynghori. Y gofyniad statudol ar gyfer y DCO yw ymgynghori am o leiaf 28 diwrnod gan ddechrau o'r diwrnod ar ôl i ymgynghorai gael yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR), (edrychwch ar Adran 7 isod i gael rhagor o wybodaeth) a dogfennau ymgynghori.

Fodd bynnag, ac er mwyn delio ag unrhyw anawsterau a allai godi oherwydd y pandemig parhaus, rydyn ni wedi ymestyn y cyfnod hwn i chwe wythnos o ymgynghori statudol, sydd wedi'i drefnu ar hyn o bryd **rhwng 31 Awst ac 11 Hydref 2021.** Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn rhoi gwybodaeth am bob agwedd ar gynlluniau ein Prosiect.

## 7. Beth fyddwn ni'n ymgynghori yn ei gylch?

**Gwybodaeth amgylcheddol: ymgynghori ar yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR):**

Yn unol â Rheoliad 12 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol), mae RWE yn cadarnhau bod AyM yn ddatblygiad sy'n gofyn am **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)** ac, o'r herwydd, rydyn ni'n cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer AyM yn unol â Rheoliad 5 Rheoliadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

Yn unol â hynny, mae tîm ein prosiect wedi bod yn cysylltu ag ymgyngoreion statudol, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol a rheoleiddwyr amgylcheddol, i lywio asesiadau rhagarweiniol o'r amgylcheddau ar y môr ac ar y tir. Mae methodoleg a chwmpas yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi cael eu cytuno â'r cyrff rheoleiddio perthnasol drwy broses gwmpasu ffurfiol a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2020. Yn unol â'r Barn Gwmpasu a gyhoeddwyd gan PINS a Chynllun Tystiolaeth y cytunwyd arno[i], mae arolygon helaeth a chasglu data wedi cael eu cwblhau dros y 18-24 mis diwethaf. (Mae modd gweld Adroddiad Cwmpasu AyM a Barn Gwmpasu PINS yn uniongyrchol ar wefan PINS drwy'r dudalen we ganlynol:
https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-awel-y-mor/?ipcsection=docs)

Yr **Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR)** yw allbwn cyntaf proses yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, ac i bob pwrpas mae'n ddrafft o'r

---

[i] Mae'r Cynllun Tystiolaeth yn broses ffurfiol lle rydyn ni'n cytuno â rheoleiddwyr pa dystiolaeth i'w chyflwyno fel rhan o'n cais am DCO.

Datganiad Amgylcheddol i'w gyflwyno gyda'n ceisiadau. Bydd yn ymgorffori canfyddiadau'r arolygon amgylcheddol a'r asesiadau cychwynnol a bydd yn galluogi ymgyngoreion i ddatblygu barn wybodus am gwmpas y Prosiect, yr effeithiau amgylcheddol posibl a'r dulliau a gynigir i osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau hynny.

**Dogfennau i roi gwybod i chi am ein cynlluniau prosiect**
Mae'r rhestr isod yn dangos y mathau o ddogfennau y bydd gennych fynediad atynt yn ystod yr ymgynghoriad statudol i helpu i roi gwybodaeth i chi am y Prosiect. Bydd y dogfennau annhechnegol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg (nid yw hyn yn cynnwys y PEIR na mapiau a chynlluniau'r Prosiect):

- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR)
- Crynodeb annhechnegol (NTS) yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR)
- Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (y ddogfen hon) – er gwybodaeth yn unig: ni cheisir sylwadau ar ei gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad statudol
- Holiadur Ymgynghori
- Mapiau a chynlluniau'r Prosiect

Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS[ii]), Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (fel y'i diwygiwyd), wedi'u diweddaru i gynnwys targedau o Gytundeb Paris 2015 (a gadarnhawyd gan y DU yn 2016), i gyd yn sefydlu'r angen brys am ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd. Felly, nid yw'r angen am y Prosiect yn fater y ceisir sylwadau yn ei gylch. Yn hytrach, byddwn yn canolbwyntio ar gasglu barn ar sut y gallwn lunio'r Prosiect gorau posibl ar gyfer yr ardal.

## 8. Sut byddwn ni'n ymgynghori?

### Dull gweithredu hybrid

O ganlyniad i'r ansicrwydd presennol ynghylch cyfarfod wyneb yn wyneb a newidiadau yng nghanllawiau'r llywodraeth ynghylch pandemig COVID-19, rydyn ni'n mabwysiadu dull gweithredu 'hybrid' ar gyfer yr ymgynghoriad statudol ar y Prosiect. Mae hyn yn golygu y byddwn yn canolbwyntio ar ddulliau rhithiol i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ac i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a'r gymuned, ond byddwn ni hefyd yn cynllunio ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyfyngedig a fydd yn digwydd dim ond os bydd polisi COVID-19 yn caniatáu hynny.

---

[ii] Mae Datganiadau Polisi Cenedlaethol EN-1 ac EN-3 ar gael fel a ganlyn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/47854/1938-overarching-nps-for-energy-en1.pdf

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/37048/1940-nps-renewable-energy-en3.pdf

**Ymgynghoriad symudol**

Yn unol â'r dull 'hybrid' hwn, rydyn ni'n cynnig cerbyd arddangosfa symudol fel ffordd o ymgynghori wyneb yn wyneb. Os credir ei bod yn ddiogel ar y pryd, bydd y cerbyd yn ymweld â lleoliadau yng nghyffiniau'r llwybr ceblau ar y tir a'r seilwaith yn Sir Ddinbych, gan ymestyn ar hyd arfordir Gogledd Cymru i gynnwys ardaloedd a allai fod â golygfeydd o'r Prosiect.

Bydd y dull hwn yn cael ei gynnig yn yr awyr agored ac felly'n rhoi hyblygrwydd o ran cyfyngiadau ac ansicrwydd COVID. Bydd dewis safleoedd gweladwy a hygyrch (fel meysydd parcio atyniadau i ymwelwyr neu archfarchnadoedd) yn galluogi AyM i ymgysylltu'n effeithiol â thrigolion lleol, ymwelwyr a grwpiau 'anodd eu cyrraedd' neu grwpiau sydd 'ddim yn cael eu clywed yn aml'.

Edrychwch ar wefan ein prosiect i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am fanylion yr ymgynghoriad wyneb yn wyneb neu'r ymgynghoriad symudol a gynhelir yn ystod y cyfnod ymgynghori: www.awelymor.cymru

Mae unrhyw ddigwyddiadau symudol yn debygol o fod yn rhan o hyd a lled ein hymgynghoriad wyneb yn wyneb a byddant yn cael eu hategu gan raglen helaeth o ymgynghori rhithiol, fel y nodir yn y tabl isod.

*Dim ond os yw cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu y bydd unrhyw ymgynghori corfforol neu wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal (yn ogystal â'r dulliau ymgynghori rhithiol sydd wedi'u rhestru yn y tabl isod). Os tybir bod ymgynghori corfforol yn anniogel neu os na chaniateir hynny, bydd AyM yn dibynnu ar ddulliau ymgynghori rhithiol yn unig.*

**Dulliau Ymgynghori Dethol**

| Dull | Manylion |
|---|---|
| Gwefan | Gwefan prosiect bwrpasol AyM, lle bydd yr holl ddeunyddiau ymgynghori ar gael i'w gweld ac i ymateb iddynt drwy gydol yr ymgynghoriad (gan gynnwys y PEIR a'r Holiadur Ymgynghori): www.awelymor.cymru |
| Arddangosfa rithiol | Arddangosfa ar-lein sydd ar gael 24/7 drwy gydol y cyfnod ymgynghori drwy wefan ein prosiect. Bydd yn cynnwys nodweddion digidol i ennyn diddordeb y cyhoedd, gan gynnwys teithiau hedfan rhyngweithiol sy'n canolbwyntio ar ein llwybr ceblau ar y tir, fideos a nodweddion eraill: https://exhibition.awelymor.cymru/?lang=cy |
| Cyfarfodydd briffio i randdeiliaid | Bydd AyM yn cynnal cyfres o gyfarfodydd briffio ar-lein gyda rhanddeiliaid y prosiect, gan gynnwys Aelodau'r Senedd, Aelodau Seneddol, nifer o aelodau a etholwyd yn lleol o Sir Ddinbych ac awdurdodau cynllunio lleol eraill ledled Gogledd Cymru, a chynghorau sir, dinas, tref a |

| | |
|---|---|
| | chymuned ar hyd y llwybr cebl arfaethedig ac ymhellach i'r gorllewin o weld yr aráe ar y môr. Bydd AyM hefyd yn cynghori rhanddeiliaid ynghylch yr ymgynghoriad a sut i gymryd rhan. |
| Cylchlythyr y prosiect | Anfonir cylchlythyr AyM at restr bostio o sefydliadau ac unigolion dethol bob chwarter. Wrth i ni nesáu at yr ymgynghoriad statudol, bydd y cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu'n fisol. Bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am y Prosiect ac yn hybu pobl i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol. (Mae copïau o'n cylchlythyrau ar gael ar ein gwefan yma: https://awelymor.cymru/newsletter/?lang=cy) |
| Cerbyd arddangosfa symudol | Opsiwn ymgynghori corfforol, hyblyg, diogel a hygyrch os yw'n cael ei ystyried yn ddiogel ar y pryd. Gweler uchod am ragor o wybodaeth ac edrychwch ar wefan ein prosiect i gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y cyfnod ymgynghori: *www.awelymor.cymru* |
| Dull postio | Bydd AyM yn anfon taflen at drigolion a busnesau yn Sir Ddinbych o fewn radiws o 3km i'r seilwaith ar y tir a'r llwybr cebl. Bydd y daflen yn cyfeirio at wefan ein Prosiect i gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw weithgareddau wyneb yn wyneb a gynlluniwyd a gwybodaeth am sut i ymateb i'n hymgynghoriad. |
| Cyhoeddiadau'r cylchgrawn cymunedol | Bydd AyM yn hysbysebu'r ymgynghoriad mewn o leiaf un cyhoeddiad cylchgrawn cymunedol lleol (Local Dragon) sy'n cael ei gyflwyno'n uniongyrchol i aelwydydd mewn rhannau o ogledd Sir Ddinbych a chymunedau arfordirol Gogledd Cymru, gan gynnwys i rannau o Gonwy ac Ynys Môn. |
| Sesiynau gwybodaeth ar-lein | Bydd staff AyM yn cynnal cyfres o sesiynau gwybodaeth ar-lein ar y Prosiect a'r ymgynghoriad. Bydd y rhain yn digwydd ar adegau gwahanol o'r dydd, ac ar draws yr wythnos/penwythnos, er mwyn sicrhau eu bod ar gael i amrywiaeth eang o randdeiliaid. (Edrychwch ar ein gwefan i gael gwybodaeth am sesiynau a chofrestru yn ystod y cyfnod ymgynghori: https://awelymor.cymru/?lang=cy.) |
| Hysbysiadau statudol | Bydd hysbysiadau statudol yn rhoi gwybod am gyhoeddi'r SoCC a'r cais am DCO arfaethedig yn lleol ac yn genedlaethol drwy: y Daily Post (papur newydd lleol), The Guardian (papur newydd cenedlaethol), y London |

| | |
|---|---|
| | Gazette (gofynnol), Lloyd's List (gofynnol) a Fishing News (cyfnodolyn masnach pysgota priodol).<br>Bydd yr hysbysiadau'n cyfeirio rhanddeiliaid at wefan y Prosiect i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am argaeledd copïau caled o ddeunyddiau ymgynghori dethol mewn lleoliadau (os credir bod hynny'n ddiogel ar y pryd), ein gweithgareddau ymgynghori a sut mae rhoi adborth. |
| Cyfryngau cymdeithasol | Bydd AyM yn defnyddio ei lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'i restr bostio i hybu pobl i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Bydd AyM hefyd yn annog rhanddeiliaid i drosglwyddo'r neges drwy eu rhestrau postio a chyfryngau cymdeithasol eu hunain. |
| Posteri | Bydd AyM yn cynhyrchu posteri i hyrwyddo cyfranogiad yn yr ymgynghoriad, a bydd yn eu rhannu â lleoliadau lleol i'w harddangos. |

Bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol, munud olaf o ran y broses ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar wefan benodol y Prosiect *(https://awelymor.cymru/?lang=cy) a thrwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol AyM. Byddwn hefyd yn rhoi diweddariadau i Gyngor Sir Ddinbych ac Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill ar gyfer eu rhannu drwy eu sianeli gwybodaeth eu hunain.*

## 9. Sut galla i gael gafael ar y SoCC hwn a deunyddiau ymgynghori eraill?

Bydd y deunyddiau ymgynghori a ddarperir i roi gwybod i chi am y Prosiect ar gael i'w gweld yn rhad ac am ddim ar-lein drwy gydol y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys ein Holiadur Ymgynghori i chi ei lenwi, ar wefan benodol y Prosiect:https://awelymor.cymru/?lang=cy.

Yn sgil effaith ddigynsail feirws COVID-19 ar fywyd bob dydd, mae rheoliadau'r Llywodraeth wedi dileu'n barhaol y gofyniad i sicrhau bod deunyddiau ymgynghori ar gael ar ffurf copi caled mewn lleoliadau ffisegol dethol (Rheoliadau Seilwaith (Cyhoeddi a Hysbysu am Geisiadau ac ati) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020).

Fodd bynnag, yn amodol ar gyfyngiadau COVID-19, rydyn ni'n bwriadu rhoi copïau caled o ddeunyddiau dethol yr ymgynghoriad yn y lleoliadau a restrir isod. Gall y deunyddiau a ddarperir gynnwys: copïau caled o'r SoCC (y ddogfen hon), y llyfryn ymgynghori (crynodeb annhechnegol (NTS) o'r PEIR) a'r Holiadur Ymgynghori. Cysylltwch â'r lleoliad cyn ymweld i wirio'r ddarpariaeth sydd yno, ac i sicrhau bod yr oriau agor yn aros fel y nodir.

| **Lleoliadau copïau caled o ddeunyddiau ymgynghori dethol (gan gynnwys y SoCC hwn) i'w gweld: Cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu** |
|---|

| Lleoliad | Cyfeiriad | Dyddiadau ar gael | Oriau agor |
|---|---|---|---|
| **Sir Ddinbych** | Llyfrgell Prestatyn: Rhodfa'r Brenin, Prestatyn LL19 9LH, y DU | 31 Awst – 11 Hydref 2021 | https://www.denbighshire.gov.uk/cy/hamdden-a-thwristiaeth/llyfrgelloedd/prestatyn.aspx |
| | Llyfrgell y Rhyl: 11A Stryd yr Eglwys, Y Rhyl LL18 3AA, y DU | Fel yr uchod | https://www.denbighshire.gov.uk/cy/hamdden-a-thwristiaeth/llyfrgelloedd/y-rhyl.aspx |
| | Llyfrgell Rhuddlan: 9 Coetiau Postol, Rhuddlan, Y Rhyl LL18 2UE, y DU | Fel yr uchod | https://www.denbighshire.gov.uk/cy/hamdden-a-thwristiaeth/llyfrgelloedd/rhuddlan.aspx |
| | Llyfrgell Llanelwy: Y Llyfrgell, Y Roe, Llanelwy LL17 0LU, y DU | Fel yr uchod | https://www.denbighshire.gov.uk/cy/hamdden-a-thwristiaeth/llyfrgelloedd/llanelwy.aspx |
| **Sir y Fflint** | Llyfrgell Treffynnon: Canolfan Hamdden Treffynnon, North Road, Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 7UZ, Sir y Fflint | Fel yr uchod | https://aura.cymru/llyfrgell-treffynnon/ |
| **Conwy** | Llyfrgell Bae Colwyn: Ffordd Coetir Orllewinol, Bae Colwyn LL29 7DH | Fel yr uchod | https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Libraries-Museums-and-Archives/Libraries/Libraries-and-opening-times/Colwyn-Bay-Library.aspx |
| | Llyfrgell Llandudno: 48 Mostyn Street, Llandudno LL30 2RP | Fel yr uchod | https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Libraries-Museums-and-Archives/Libraries/Libraries-and-opening-times/Llandudno-Library.aspx |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llyfrgell Abergele:<br><br>Stryd y Farchnad, Abergele LL22 7BP | Fel yr uchod | https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Libraries-Museums-and-Archives/Libraries/Libraries-and-opening-times/Abergele-Library.aspx |
| | Llyfrgell Llanfairfechan: Village Rd, Llanfairfechan LL33 0AA | Fel yr uchod | https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Libraries-Museums-and-Archives/Libraries/Libraries-and-opening-times/Llanfairfechan-Library.aspx |
| **Gwynedd** | Llyfrgell Gyhoeddus Bangor<br><br>Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT | Fel yr uchod | https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Llyfrgelloedd-ac-archifau/Eich-llyfrgell-leol/Llyfrgell-Bangor.aspx |
| **Ynys Môn** | Llyfrgell Porthaethwy: Wood St, Porthaethwy LL59 5AS, y Deyrnas Unedig | Fel yr uchod | https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Llyfrgelloedd/Chwilio-am-fy-llyrfgell-leol/Llyfrgell-Porthaethwy.aspx |
| | Llyfrgell Biwmares: Grammar School Lane, Biwmares LL58 8AL | Fel yr uchod | https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Llyfrgelloedd/Chwilio-am-fy-llyrfgell-leol/Llyfrgell-Biwmares.aspx |

Byddwn yn ystyried hwyluso ymatebion copi caled, er enghraifft drwy ddarparu cyfeiriad rhadbost, neu flychau pwrpasol mewn lleoliadau penodol.

Ar ben hynny, bydd deunyddiau ymgynghori dethol (gan gynnwys y SoCC hwn a NTS y PEIR) ar gael ar ffurf copi caled am ddim ar gais. Fodd bynnag, bydd gan gynlluniau'r PEIR a dogfennau cysylltiedig eraill ffi adennill costau ynghlwm er mwyn gallu darparu copïau caled. Gellir gwneud ceisiadau drwy gydol y cyfnod ymgynghori drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir yn Adran 16 isod.

I gefnogi rhanddeiliaid nad oes ganddynt fynediad dibynadwy i'r rhyngrwyd, ond sydd â chyfrifiadur neu ddyfais addas arall, bydd AyM yn rhoi **dogfennau ymgynghori ar ffon USB** drwy'r post ar gais (drwy'r manylion cyswllt yn Adran 16 isod).

## 10. Pryd alla i gymryd rhan?

Bydd AyM yn derbyn ac yn ystyried sylwadau ar ein cynigion ar unrhyw adeg drwy'r manylion cyswllt yn Adran 16 isod. Fodd bynnag, bydd y cyfnod ymgynghori statudol yn rhedeg o 31 Awst i 11 Hydref 2021, a byddem yn eich annog i gymryd rhan bryd hynny.

**Edrychwch ar wefan ein Prosiect i gael unrhyw wybodaeth wedi'i diweddaru am yr ymgynghoriad statudol, gan gynnwys unrhyw ymgynghoriad corfforol arfaethedig a allai fynd rhagddo: https://awelymor.cymru/?lang=cy**

## 11. Sut alla i roi adborth?

Defnyddiwch ein Holiadur Ymgynghori. Bydd ar gael ar-lein yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol drwy wefan y Prosiect a'r arddangosfa rithiol (https://awelymor.cymru/?lang=cy a https://exhibition.awelymor.cymru/?lang=cy). Fel arall, gallwch ofyn am gopi caled gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn Adran 16 isod, neu (yn amodol ar gyfyngiadau COVID) yn y lleoliadau a restrir uchod.

**Sylwer: mae gwefan y Prosiect yn eich galluogi i gofrestru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ein cynnydd. Gallwch chi hefyd ein dilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol: @RWE_UK.**

## 12. Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'ch adborth?

Fel datblygwr y prosiect, ac fel un o ofynion y cais am DCO, mae gennym ddyletswydd i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Fel rhan o'r cais, byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori yn nodi'r canlynol:

- Ein proses ymgynghori
- Sut cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â'r SoCC hwn
- Sut roeddem yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol (yn benodol: adrannau 42, 47, 48 o'r Ddeddf)
- Sut roeddem wedi gweithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau bod ein hymgynghoriad yn gymesur ac wedi'i deilwra i gymunedau lleol sy'n byw yng nghyffiniau'r Prosiect
- Crynodeb o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad (gan gymunedau lleol ac ymgyngoreion statudol), gan gynnwys sut cafodd yr adborth hwn ei ystyried a'i weithredu yng ngoleuni prosesau a chynlluniau gwneud penderfyniadau'r Prosiect
- Os yw'n berthnasol: pam na roddwyd ystyriaeth i unrhyw adborth a dderbyniwyd.

## 13. Cyfle arall i roi adborth

Nid yr ymgynghoriad statudol yw'r cyfle olaf i ddweud eich dweud. Ar ôl i ni gyflwyno ein cais cynllunio DCO, bydd cyfleoedd i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y dogfennau, ac i godi pwyntiau allweddol gyda'r Awdurdod Archwilio yn ystod gwrandawiadau cyhoeddus. Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r rhain ar yr adeg briodol. Mae canllawiau ar gael am y broses DCO yma:
https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/2013/04/Advice-note-8.0.pdf

## 14. Yr iaith Gymraeg

Mae Awel y Môr yn credu ei bod yn arfer busnes da i ddeall dewis iaith ein rhanddeiliaid. Rydyn ni'n cyflogi staff sy'n siarad Cymraeg ar draws ein swyddfeydd yng Nghymru a Lloegr, ac rydyn ni'n croesawu ymholiadau yn Gymraeg hefyd. Bydd y SoCC hwn, y Crynodeb Annhechnegol (NTS) o'r PEIR a'r Holiadur Ymgynghori i gyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd, bydd ein gwefan benodol ar gyfer y Prosiect a'n harddangosfa rithiol ar gael i'w gweld yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae ein polisi Iaith Gymraeg ar gael i'w weld ar wefan ein Prosiect (https://awelymor.cymru/?lang=cy ).

## 15. Addasu i bandemig COVID-19

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddramatig ar bob agwedd ar fywyd yn y DU ers y 'cyfnod clo' cenedlaethol a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020. Mae'n amhosibl rhagweld effaith y feirws ar fywyd cyhoeddus dros gyfnod datblygu AyM. Fodd bynnag:

- Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd yn rhan o'i hadferiad economaidd ar ôl y pandemig a'i strategaethau ar ôl Brexit;
- Mae angen brys y DU am ffynonellau ynni newydd ac adnewyddadwy yn parhau;
- Mae RWE, yr Arolygiaeth Gynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a rhanddeiliaid allweddol yn addasu i amgylchiadau ac yn diwygio arferion er mwyn cyflawni 'busnes fel arfer' lle bo hynny'n ymarferol; ac
- Mae cyngor wedi cael ei gyhoeddi gan amrywiol gyrff proffesiynol ar gyfer dal gafael ar brosesau datblygu a chydsynio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd.

Bydd RWE yn dilyn yr arferion gorau a'r cynsail diweddar o ran sicrhau bod cymunedau lleol yn gallu dweud eu dweud am y cynigion ar gyfer AyM, ni waeth y

pandemig. Er enghraifft, rydyn ni'n caniatáu amseroedd ymateb hirach na'r hyn sy'n statudol, gan gynnig cyfarfodydd a deunyddiau ar-lein a chopïau caled o ddeunyddiau ymgynghori dethol mewn lleoliadau fel y nodir uchod.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol neu'r llyfrgelloedd eu hunain, i hyrwyddo'r defnydd o'u dyfeisiau digidol mewnol i weld y SoCC a'r deunyddiau ymgynghori. Gall hyn gynnwys defnyddio system archebu ar-lein yn y llyfrgelloedd perthnasol neu'r system gyfatebol.

Bydd unrhyw ymgynghoriad wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal dim ond os bydd y Llywodraeth a'r canllawiau mewnol yn caniatáu hynny ar y pryd.

**16. Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth**

- **Cyfeiriad e-bost y prosiect:** awelymor@rwe.com
- **Llinell wybodaeth rad ac am ddim:** 0800 197 8232
- **Cyfeiriad post:** Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr Cyf, RWE Renewables UK Ltd, Windmill Hill Business Park, Whitehill Way, Swindon, SN5 6PB
- **Gwefan y prosiect** https://awelymor.cymru/?lang=cy
- **Cyfryngau cymdeithasol:** @RWE_UK

## Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn print bras neu mewn fformatau eraill, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir yn uniongyrchol uchod. Byddwn hefyd yn ystyried cyflenwi'r SoCC hwn mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg, os bydd galw amdano yn y gymuned leol.

**Wrth ymateb i'n hymgynghoriad cyn ymgeisio, bydd RWE yn storio eich data personol yn unol â GDPR ac ni fydd yn cael ei rannu â thrydydd partïon oni bai fod y gyfraith yn mynnu hynny. Bydd eich manylion a chopi o unrhyw ymateb yn cael eu trosglwyddo i'r Arolygiaeth Gynllunio i sicrhau bod ein hymgynghoriad cyn ymgeisio yn ddigonol ac yn unol â'r broses gynllunio. Dylech dybio y bydd sylwedd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad a roddir i RWE yn cael ei rannu â'r Arolygiaeth Gynllunio, ac, yn amodol ar olygu manylion personol, bydd yn cael ei gynnwys mewn atodiad i'r adroddiad ymgynghori a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio fel rhan o unrhyw gais.**

Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr Cyf.
https://awelymor.cymru/?lang=cy

Swyddfa gofrestredig:
Windmill Hill Business Park
Whitehill Way
Swindon SN5 6PB
Wiltshire SN5 6PB
Rhif Cofrestru yng Nghymru a Lloegr 12270928